

POLISI GOHIRIO

- Gallwch gyflwyno cais i ohirio eich astudiaethau tan y flwyddyn academiaidd /pwynt mynediad nesaf drwy ysgrifennu i'r [tîm derbyn myfyrwyr](#) priodol. Dim ond un gohiriad a ganiateir fel arfer, ac wedi hynny bydd yn rhaid i chi gyflwyno cais newydd.
- Sylwer nad yw rhai rhaglenni'n caniatáu gohirio mynediad, er enghraifft pan fydd terfyn ar nifer y lleoedd sydd ar gael neu lle cafwyd newid sylweddol i ofynion mynediad ers cyflwyno eich cais gwreiddiol.
- Eich cyfrifoldeb chi yw bod yn ymwybodol o newidiadau i ddyddiadau cau megis talu blaendal os byddwch yn cyflwyno cais am ohiriad.
- Fel arfer nid oes modd gohirio cynnig o ysgoloriaeth gan y Brifysgol. Mewn achosion lle nad oes modd gohirio cynnig ysgoloriaeth a chaiff y dyfarniad dan sylw ei ail-hysbysebu, byddai angen i chi ailymgeisio ond nid oes sicrwydd y byddai cais yn y dyfodol yn llwyddiannus.
- Bydd gohirio eich cynnig yn debygol o arwain at gynnydd mewn ffioedd dysgu. Mae ffioedd dysgu yn destun adolygiad blynyddol ac yn tueddu i gynyddu bob blwyddyn. Os ydych, o'r cychwyn cyntaf, yn cyflwyno cais am le ar gyfer y flwyddyn ganlynol, mae'n bosib na fydd ffioedd y flwyddyn ganlynol ar gael a bydd eich cynnig yn dyfynnu ffioedd y flwyddyn gyfredol fel canllaw.
- Os oes angen fisa arnoch i astudio, sylwer bod eich Cadarnhad Derbyn i Astudio (CAS) a'ch fisa yn nodi dyddiad dechrau a rhaglen penodol. Os ydych yn newid eich dyddiad dechrau efallai y bydd yn rhaid i chi gyflwyno cais am CAS neu fisa newydd yn y flwyddyn rydych am astudio ynddi.
- Os yw eich cwrs yn gofyn am Dystysgrif Clirio Cynllun Cymeradwyo Technoleg Academiaidd (ATAS), bydd yn rhaid i chi gael tystysgrif ATAS newydd, gan y bydd angen dilysu hyn wrth gyflwyno cais am fisa ar gyfer eich dyddiad dechrau gohiriedig.
- Caiff eich statws ffioedd ei asesu ar adeg cyflwyno cais yn seiliedig ar yr wybodaeth rydych wedi'i darparu a bydd yn ystyried dyddiad dechrau penodol. Os ydych yn gohirio dyddiad dechrau eich rhaglen, gallai hyn effeithio ar eich statws ffioedd (sy'n pennu eich cymhwysedd am ffioedd dysgu is a mynediad at gymorth ariannol i fyfyrwyr). Cedwir yr hawl gan y Swyddfa Derbyn Myfyrwyr i ailasesu eich statws ar gyfer eich dyddiad dechrau gohiriedig.
- Os nad Saesneg yw'ch iaith gyntaf, efallai y byddwn yn gofyn i chi sefyll prawf iaith Saesneg. Sylwer bod y rhain yn ddilys am ddwy flynedd yn unig. Os bydd gohiriad yn gwneud eich prawf iaith Saesneg yn amherthnasol, rydym yn cadw'r hawl i addasu eich cynnig i gynnig amodol yn seiliedig ar ddangos eich hyfedredd presennol gyda phrawf newydd. Gweler ein tudalen [gofynion iaith Saesneg](#) am ragor o wybodaeth.
- Os ydych eisoes wedi talu blaendal, caiff y blaendal fel arfer ei gadw gan y Brifysgol yn erbyn eich cynnig gohiriedig ac ni fydd yn cael ei ad-dalu.

- Os ydych yn bwriadu astudio cwrs arall yn ystod y cyfnod gohirio a chyn dyddiad dechrau'r cwrs yn Abertawe a ohiriwyd, rhaid i chi roi gwybod i ni am hyn ar adeg cyflwyno cais am ohirio. Bydd eich cynnig mynediad gohiriedig yn cynnwys amodau i wirio eich bod wedi cwblhau'r cwrs hwnnw'n llwyddiannus a/neu wedi tynnu'n ôl ohono, cyn dechrau ar eich cwrs yn Abertawe.

Yn ogystal, rydym yn cadw'r hawl i gyflwyno amodau i'ch cynnig gohiriedig sy'n galw am gyflawni lefel benodol o gyrhaeddiad mewn cwrs ychwanegol. Bydd hepgor gwybodaeth sy'n ymwneud ag astudio cyrsiau eraill mewn prifysgol yn ystod cyfnod o ohirio yn cael ei drin fel hepgor materol a gall arwain at dynnu'r gohiriad yn ôl. Ar gyfer unigolion y mae angen fisa arnynt i astudio yn y DU, gall hyn hefyd effeithio ar eich cymhwysedd am gynnig a ohiriwyd gydag Abertawe yn unol â rheoliadau mewnfudo sy'n berthnasol ar yr adeg honno.

- Bydd ceisiadau am ohirio ar gyfer unrhyw radd ymchwil ôl-raddedig e.e. MPhil/PhD yn dibynnu ar argaeledd goruchwylwyr addas a/neu argaeledd ysgoloriaeth benodol ac felly cânt eu hystyried fesul achos. Bydd y Tîm Ymchwil Ôl-raddedig yn gallu eich cynghori chi.
- O ganlyniad i ohirio'ch mynediad tan y cyfnod derbyn nesaf, rydych yn derbyn y gall fod angen i'r Brifysgol amrywio gwasanaethau, cyfleusterau, disgrifiad, cynnwys, dull a/neu leoliad cyflwyno a/neu amserlen eich rhaglen. Os digwydd hyn, bydd y Brifysgol yn rhoi gwybod i chi am unrhyw newidiadau perthnasol cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol a bydd cyfle i chi ganslo eich lle (a'ch contract gyda'r Brifysgol) os ydych yn anfodlon ar y newidiadau i'r rhaglen.